

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU  
(Arolygiadau Safle)**

**5 Hydref 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd Mrs D Clements (Solfach yn unig), Cynghorydd P Harries, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox (Maenorbŷr yn unig), Cynghorydd M Williams (Maenorbŷr yn unig) a'r Cynghorydd S Yelland.

(Arolwg Safle Maenorbŷr: 10.30 a.m. – 11.00 a.m.; Solfach 12pm – 12.30pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones a Dr RM Plummer.

**2. NP/19/0522/FUL – Caniatad cynllunio amlinellol ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy. Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd tir o 85 o bebyll a charafanau teithiol i 85 o garafanau sefydlog a thirweddau cysylltiedig, ffyrdd dosbarthu a gorsaf newydd pwmpio carthion - Maes Carafanau a Gwersylla Buttyland, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7SX**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr arolwg safle y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngi â safle'r cais a'r ardal gyfagos. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd fis Medi 2020 pan gafodd y cais ei ohirio er mwyn cynnal arolwg safle.

Aeth yr Aelodau rhagddynt i gael golwg ar y safle.

Gohiriwyd yr arolwg safle er mwyn caniatáu amser i deithio i'r ail safle.

**3. NP/19/0616/FUL ac NP/19/0617/FUL – Anedd newydd yn lle'r hen annedd a sied offer garddio - Porth y Rhaw, 22 Stryd Fawr, Solfach, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 6TF**

Nodwyd bod y ceisiadau hyn hefyd wedi'u hystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd fis Medi 2020 pan gafodd y ceisiadau eu gohirio er mwyn cynnal arolwg safle.



Yma eto aeth yr Aelodau i gael golwg ar y safle.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r ymweliadau safle, a daeth â'r cyfarfod i ben.

